RhannuCeirCaerdydd.com

Cylchlythyr

Cyngor Caerdydd : Ffôn (029) 2087 2000

Haf 2008 Rhifyn 7

EITEMAU ARBENNIG :

- Aelod Newydd
- Newyddion Aelodau
- Trafnidiaeth Actif
- Wythnos Symudedd Ewropeaidd

Cefnogwyd gan:

Croeso i gylchlythyr yr haf ar gyfer CarShare2Cardiff.com

Gall rhannu eich siwrnai i'r gwaith eich helpu i arbed arian a lleihau'r problemau parcio yn eich gweithle. Gellwch rannu siwrneiau trwy gerdded, seiclo, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â char ar y wefan hon. Cynllun Rhannu Siwrnai dwyieithog Cyngor Caerdydd yw RhannuCeirCaerdydd. Mae'r cynllun yn rhoi ffordd syml i'w aelodau ddarganfod cydymaith teithio.

Rhannwch eich taith!
Cofiwch y gellwch ddewis rhannu gyda chydweithwyr o'ch sefydliad chi neu o sefydliad arall sy'n aelod o'r cynllun ac sy'n byw neu'n teithio ar hyd yr un daith a chi i'r gwaith. Er enghraifft gall dicio'r blwch opsiwn 'rhannu â aelod o sefydliadau eraill', ddangos gweithwyr o safle Neuadd y Sir Cyngor Caerdydd, sy'n paru â aelodau o Ganolfan y Mileniwm, neu hyd yn oed Ysbyty Felindre, os yw hwnnw ar yr un daith!

Newyddion UWIC

Mis y Teithio .
Mae UWIC yn cynllunio i lansio ei Cynllun Teithio nhw yn ystod mis Hydref gyda chyfres o ddigwyddiadau i'w gefnogi. Mae'r rhain yn cynnwys Cynlluniau Seiclo i'r Gwaith, wythnos Cerdded i'r Gwaith (pedometrau am ddim), ac hefyd 'wythnos fysus am ddim' a'r Is-gadeirydd a'r Llywodraethwyr yn cymryd rhan ym Mws UWIC. Bydd hefyd Diwrnod Rhannu Ceir ('rhowch gynnig iddo unwaith'), a sawl cynllun arall.

Rhannu Ceir UWIC

Eleni bydd llefydd parcio hyd yn oed yn fwy prin yng Nghampws UWIC yn Llandaf, oherwydd y gwaith adeiladu ar y safle. Er mwyn helpu'r sefyllfa, bydd UWIC yn gwneud ymdrech i annog aelodau newydd i ymuno a'r cynllun rhannu ceir, a'r aelodau presennol i ddechrau grwpiau.
Bydd Cydlynydd Cynllun Teithio UWIC, Menna Hawkins yn cysylltu ag aelodau presennol gydag awgrymiadau ar gyfer partneriaid rhannu. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd nifer y mannau parcio yn cael eu cynyddu i ateb y galwadau gan fyfyrwyr a staff.

Bws UWIC

Eleni, bydd Bws UWIC yn gweithredu gyda gwasanaeth ychwanegol sy'n rhedeg taith gylchol rhwng Y Rhath/Cathays â Champws Llandaf, yn darparu gwasanaeth i Landaf bob 20 munud.
Mae teithiau'r Bws bellach yn galw'n uniongyrchol yn, neu'n agos i 4 neuadd breswyl breifat arall ble mae myfyrwyr UWIC yn preswylio. Er mwyn annog staff i ymgeisio am docynnau bws, bydd ffurflenni cais yn cael eu cynnwys gyda slipiau talu ac yn cael eu cefnogi gan Ganllaw Teithio Staff UWIC. Bydd y Canllaw Teithio Staff yn cael ei ddosbarthu i'r 1400 o staff mewn slipiau talu mis Medi, ynghyd â ffurflen gais Bws UWIC.

Seiclo UWIC

Bydd ail gynnig o frecwast am ddim ar gael tua diwedd mis Medi i'r rheiny sy'n seiclo i'r gwaith. Yn ystod hyrwyddiad mis Mehefin, gofynnodd 99 o staff am dalebau a'r gobaith yw y bydd y diddordeb hwn yn cynyddu. Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o seiclwyr trwy'r fenter hon ac mae meysydd parcio wedi bod yn llawer tawelach, a mannau parcio beiciau yn brysurach.
I gefnogi'r digwyddiad 'Seiclo i UWIC', bydd ail gyfnod o brynu beiciau o dan Gynllun Seiclo i'r Gwaith y Llywodraeth ym mis Hydref.
Yn dilyn adborth gan staff, gobaith UWIC yw codi'r cyfyngiad prynu unigol i £1000.

GDB Staff a Myfyrwyr

Bydd Grŵp Defnyddwyr Seiclo Staff yn lansio ei logo newydd ym mis Hydref. Mae stondin dan do, addas i bob tywydd, gyda mynediad trwy garden llithro yn cael ei osod ar Gampws Llandaf cyn mis Medi. Bydd hwn yn darparu lle i 40 o feiciau. Mae UWIC wedi cychwyn proses i ddechrau Grŵp Defnyddwyr Beiciau i fyfyrwyr eleni, gyda'r cyfarfod cyntaf i gael ei gynnal yn ystod y tymor newydd. Rheolwr Llety a Chynlluniau Teithio, Neil Woollacott fydd yn Cadeirio'r cyfarfod cyntaf ac yn pasio'r awenau ymlaen i'r myfyrwyr a'u hannog i gymryd perchnogaeth o'r grŵp

Canllaw Teithio i Fyfyrwyr

Mae'r canllaw wedi ei ddiweddaru yn dilyn llwyddiant ysgubol y canllaw y llynedd ac unwaith eto, bydd yn cael ei ddosbarthu i fyfyrwyr UWIC yn ystod wythnos olaf mis Awst yn esbonio wrthynt pam nad oes angen dod â char. Eleni, mae UWIC wedi cynnwys adran "Dewch â hwn gyda chi i WOW am y cyfle i gystadlu" er mwyn annog myfyrwyr i ddod â'u canllawiau gyda nhw a defnyddio'r manylion cyswllt tra'n astudio yma.

WOW

Bydd Anerchiad yr Is-ganghellor (WOW) yn cael ei gynnal ar 22 Medi a bydd

materion yn ymwneud â theithio'n chwarae rhan allweddol ohono. Bydd stondin fawr â graffigwaith am bob maes cludiant yn ymwneud â UWIC yn cael ei harddangos a bydd gwobrau yn cael eu rhannu i fyfyrwyr sy'n dod â'u Canllawiau Teithio heibio. Mae'r gwobrau'n cynnwys 4 beic mynydd (gyda helmedau), iPods, pedometrau, a phabelli cyflym. Bydd Bws Caerdydd a Traveline wrth law a darparwr beiciau i roi atebion cynhwysfawr ar faterion teithio.

Cyflwyniadau Cyrsiau .

Bydd Menna Hawkins yn rhoi cyflwyniadau 10 munud o hyd yn ystod nifer o gyflwyniadau i Ysgolion UWIC i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf, yn amlinellu'r opsiynau teithio sydd ar gael i fyfyrwyr.

Newyddion Canolfan y Milenwim

Bellach mae Canolfan Mileniwm Cymru hefyd yn rhan o'r cynllun rhannu siwrnai. Gwahoddwyd gweithwyr i ddod i sesiwn ymwybyddiaeth, dan arweiniad Cyngor Caerdydd yn ystod mis Gorffennaf, ac roedd nifer yn bresennol. Nawr caiff y cynllun ei ehangu i gynnwys gweithwyr o sefydliadau sy'n aelodau o'r cynllun a gellir cael manylion am eu cynlluniau hwythau trwy gysylltu â Gweinyddwr Rhannu Siwrnai Canolfan Mileniwm Cymru trwy e-bostio carshareadmin@wmc.org.uk

Newyddion Hyder

Mae RhannuCeirCaerdydd yn Swyddfeydd Ymgynghori Hyder yn Llaneirwg wedi mynd gam ymhellach gan roi Mannau Parcio dynodedig ger ei swyddfeydd.

Bydd y 5 man parcio arfaethedig, a fydd i weithwyr Hyder yn llwyr, wedi eu lleoli yn agos i brif fynedfa'r swyddfeydd a byddant yn agor yn ystod diwedd yr haf.

Aelod Newydd!

Ymddiriedolaeth GIG Felindre

Croeso mawr i Ysbyty Felindre, aelod diweddaraf y cynllun. Mae Ysbyty Felindre wedi ei leoli yn Yr Eglwys Newydd yng Nghaerdydd ac yn arbenigo mewn Gofal Cancr.

Mae eu Cynllun Teithio nhw ar fin cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth y Cynulliad cyn hir, ac yn ôl gofynion y Cynulliad mae gofyn i bob Ysbyty GIG gynhyrchu Cynllun Teithio. Mae'r ysbyty, sydd ar hyn o bryd yn gwneud nifer o welliannau a fydd yn cyfrannu at ofal cleifion, yn annog ei holl staff i ystyried sut maent yn teithio i'r gwaith bob dydd ac i wneud yr ymdrech i adael eu ceir adref pan fo'n bosibl.

Eu cred yw mai Rhannu Siwrnai yw un o'r opsiynau i ateb y cynydd mewn teithio cynaladwy gan eu gweithwyr, ac yn annog gymaint o weithwyr a phosib i ymuno â'r cynllun.

Newyddion Cyngor Caerdydd

Mae'r wefan ar ei newydd wedd wedi bod ar gael am fis ac mae'r diweddariadau Cymraeg bellach yn fyw. Gall aelodau, a darpar aelodau gyrchu'r wefan Gymraeg trwy rhannuceircaerdydd.com.

Cynyddu'ch cyfle!

Mae'r gronfa ddata rhannu siwrnai yn parhau i dyfu. Cofiwch y gellwch gynyddu'r cyfleon am bartner rhannu trwy ganiatáu i'r system chwilio am weithwyr o sefydliadau cyfagos. Mae hyn yn berthnasol i holl aelodau'r cynllun sy'n chwilio am rywun i rannu siwrnai.

Llwybr Beicio'r Morglawdd – Mae seiclwyr o ardal Penarth i Gaerdydd a Bae Caerdydd yn enwedig, wedi croesawu agor y cyswllt olaf ar Lwybr Morglawdd Arfordirol Bae Caerdydd.

Agoriad Swyddogol Morglawdd Bae Caerdydd gan Jane Davidson AC

Ar hyn o bryd mae'r llwybr ar agor rhwng 8 am ac 8 pm bob dydd. I ddechrau, efallai y cyfyngir ar amseroedd agor yn ystod y gaeaf i ddwyn materion iechyd a diogelwch ar nosweithiau tywyll i ystyriaeth. Mae'r sefyllfa hon yn amodol ar adolygiad gan Lywodraeth y Cynulliad.

Wythnos Teithio Glân Ewrop
Unwaith eto, mae Cyngor Caerdydd yn gwahodd aelodau o RhannuCeirCaerdydd.com i wneud yr ymdrech i adael eu ceir adref yn ystod Wythnos Mudo Ewropeaidd ar o leiaf un diwrnod.
Gellwch ddod o hyd i wybodaeth am ddulliau hawdd eraill o deithio trwy ddilyn y dolenni yn y blwch 'Gwybodaeth Ddefnyddiol' isod, neu trwy lwytho'r daflen o'r wefan.

Poster Newydd!
Cadwch lygaid am y Poster Rhannu Siwrnai newydd. Pam dim annog ffrindiau a chydweithwyr i ymuno â'r cynllun? Cofiwch y gall rhannu siwrneiau fod o fudd i chi, ein Dinas a'r blaned!

Gwybodaeth Ddefnyddiol:

Gwybodaeth Diogelwch y Ffyrdd: www.roadsafety.cardiff.gov.uk

Cwmniau Teithio Uniongyrchol:
Bws Caerdydd: www.cardiffbus.com
Trenau Arriva: www.arrivatrainswales.co.uk
Rhwydwaith Rheilffordd Cenedlaethol: www.nationalrail.co.uk (ffôn. 08457 48 49 50)

Cynllunio Teithio:
Traveline Cymru: www.traveline-cymru.org.uk (ffôn. 0871 200 22 33)

Ffynhonellau Eraill:
Dolenni Teithio y BBC : www.bbc.co.uk/wales/southeast/travel

Gwybodaeth am Gynlluniau Teithio:
Gwefan: www.caerdydd.gov.uk/cynlluniauteithio - e-bost: cynlluniauteithio@caerdydd.gov.uk

Gwybodaeth am Strategaeth Drafnidiaeth y Cyngor: www.keepingcardiffmoving.co.uk